

W/SERD

Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac
Economaidd, Data a Dulliau Cymru

CIPOLWYG

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017



Adroddiad y cyfarwyddwr



Croeso cynnes i Gipolwg WISERD 2017, ein hadroddiad ar beth oedd blwyddyn fwyaf y sefydliad hyd yma.

WISERD yw'r ganolfan genedlaethol ar gyfer ymchwil y gwyddorau gymdeithasol, sy'n dod ag academyddion ynghyd o ddisgyblaethau gwyddorau cymdeithasol gwahanol i rannu gwybodaeth a datblygu syniadau sy'n defnyddio dulliau ymchwil arloesol i fynd i'r afael ag amrywiaeth o feysydd polisi pwysig. Fel y gwelwch o'r adroddiad hwn, mae'r dull unigryw hwnnw i ymchwil gwyddorau cymdeithasol wedi parhau i gynhyrchu canfyddiadau arloesol yn 2017.

Mae ein hymchwil yn arwain at newid yn rheolaidd drwy ddylanwadu ar ddatblygiad polisi ac arfer ar draws amrywiaeth o sectorau. Ac, yn 2017 fe wnaethom gynydd mawr drwy ehangu ein cysylltiadau gyda sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru ac yn rhyngwladol i helpu ein harbenigedd gyrraedd corneli newydd mewn cymdeithas sifil.

Nid yn unig mae ein gwaith yn rychwantu ein partneriaeth ar draws pum prifysgol yng Nghymru, ond rydym hefyd yn cydweithio gydag academyddion ledled y DU ac yn parhau i feithrin cysylltiadau byd-eang.

Byddwn yn dechrau ar ein 10fed blwyddyn 2018. Byddwn yn nodi'r pen-blwydd hon gyda digwyddiadau a dathliadau, ond yn bwysicaf byddwn yn parhau i gyflwyno canfyddiadau ymchwil gwych pellach, datblygu syniadau ymchwil newydd a denu talent ymchwil newydd i ymuno â'n timau a'n rhwydweithiau.

Gobeithiaf fod yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg i chi o hyd a lled ein gwaith, a'i fod yn eich ysbrydoli i ddilyn ein cynnydd drwy gydol 2018 a thu hwnt.

Ian Rees Jones

Cyfarwyddwr WISERD

Mae WISERD yn bartneriaeth o'r pum prifysgol Gymreig canlynol:



Croeso

Cynnwys

Adroddiad y cyfarwyddwr 02

Ymchwil arloesol

Ein hymchwil 03

Cydnabyddiaeth a gwobrau 04

Dulliau ymchwil arloesol 05

Dylanwadu ar bolisi

Gweithio gyda chymdeithas sifil 06

Dylanwadu ar ganlyniadau polisi 07



Cynyddu cynhwysedd

Datblygu arweinwyr ymchwil 08

Rhwydweithiau ymchwil 10

Rhannu ein hymchwil

Yn y cyfryngau 11

Blwyddyn o ddigwyddiadau 12



Ystod byd-eang

Cysylltiadau rhyngwladol 14

Cyllid

Proffil incwm 16

Ein hymchwil

Mae gwaith WISERD yn cwmpasu amrywiaeth o ddisgyblaethau gwahanol. Ein rhaglenni ymchwil mwyaf yw:

Cymdeithas Sifil

Cymdeithas Sifil yw prosiect ymchwil mwyaf WISERD ar hyn o bryd, gan ddwyn pum prifysgol y sefydliad ynghyd mewn canolfan ymchwil a ariennir gan yr ESRC. Mae gan y ganolfan a ddechreuodd yn 2014 raglen pum mlynedd o ymchwil amlddisgyblaethol, perthnasol i bolisi sy'n rhoi sylw i gymdeithas sifil yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Addysg WISERD

Mae Addysg WISERD yn cael ei ariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Hefcw). Nod y prosiect yw cynnal ymchwil er mwyn cynnal a gwella ansawdd dysgu, a safonau addysgu ac addysg athrawon yng Nghymru. Un o'i brif ddarnau o waith yw'r Astudiaeth Aml-Garfan, sy'n arolygu disgyblion bob blwyddyn mewn ysgolion ledled Cymru ers 2012.

Global-Rural

Nod y prosiect Global-Rural, sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Aberystwyth, yw symud ein dealltwriaeth o brosesau ac effeithiau globaleiddio mewn rhanbarthau gwledig ymlaen drwy ddatblygu a defnyddio dulliau cysyniadol a methodolegol newydd.

IMAJINE

Mae IMAJINE (Mecanweithiau Integreiddiol i Fynd i'r Afael â Chyfiawnder Gofodol ac Anghydraddoldebau Tiriogaethol yn Ewrop) yn brosiect ymchwil mawr, a ariennir gan Horizon 2020, ym Mhrifysgol Aberystwyth sy'n rhoi sylw i anghyfiawnder gofodol ac anghydraddoldebau tiriogaethol.



Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru

Mae Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADRC-W) yn un o bedair canolfan genedlaethol sydd wedi'u sefydlu yn y DU gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC). Mae'n defnyddio technoleg arloesol i gysylltu a dadansoddi data gweinyddol di-enw i helpu i lywio ymchwil cymdeithasol, economaidd ac ymchwil cysylltiedig ag iechyd yn y DU.

Astudiaeth IDEAL

Mae'r astudiaeth IDEAL (Gwella Profiad Dementia a Gwella Bywyd Actif) yn brosiect dan arweiniad Prifysgol Caerwysg sy'n canolbwyntio ar y potensial ar gyfer byw'n dda gyda dementia o safbwynt pobl â dementia a'u prif ofalwyr. Mae ail gam yr astudiaeth wedi cael ei wneud yn Ganolfan Rhagoriaeth y Gymdeithas Alzheimer's.

Cydnabyddiaeth a gwobrau

Mae ymchwilwyr WISERD a'u gwaith yn cael eu cydnabod yn aml, yn y byd academiaidd a thu hwnt. Dyma rai'n unig o'r cydnabyddiaethau ffurfiol a gyflawnwyd gan ein hacademyddion yn 2017:

Yr Athro Chris Taylor yn derbyn Medal Hugh Owen



Derbyniodd yr Athro Chris Taylor, Cyd-Gyfarwyddwr WISERD (Prifysgol Caerdydd) Fedal gyntaf Hugh Owen gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru i gydnabod ei gyfraniad methodoleg arloesol i ymchwil addysgol.

Rhoddodd Chris Taylor ei ddarlith medal ym mis Rhagfyr i gynulleidfa o weithwyr addysg a llunwyr polisi, gan adlewyrchu ar weithredu Adolygiad Donaldson ar gwricwlwm ysgol y Gymraeg.

Cymrodoriaethau a phenodiadau mawreddog



Cafodd Cyd-Gyfarwyddwyr WISERD Sally Power (Prifysgol Caerdydd) a'r Athro Michael Woods (Prifysgol Aberystwyth) eu hethol fel cymrodwr i Gymdeithas Ddysgedig Cymru, cydnabyddiaeth gyhoeddus o ragoriaeth academiaidd yng Nghymru. Hefyd, etholwyd Athro Anrhydeddus Prifysgol Caerdydd W. John Morgan yn aelod Cyngor ac Ymddiriedolwr i'r Gymdeithas Ddysgedig.

Cyflwynwyd yr Athro Power fel Cymrawd i'r Academi Gwyddorau Cymdeithasol. Dywedodd yr Athro Roger Goodman FAcSS, Cadeirydd yr Academi, fod pob Cymrawd wedi'u "cydnabod am eu cyfraniadau rhagorol a dylanwadol."

Rhestr fer llawn WISERD ar gyfer gwobr ymchwil

Derbyniodd yr Athro Chris Taylor Wobr Effaith Ymchwil gan Gymdeithas Ymchwil Cymdeithasol Cymru, o restr fer llawn o ymchwilwyr WISERD.

Enillodd yr Athro Taylor y wobwr am arwain tîm oedd yn gwerthuso Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru, y cwricwlwm ysgol ar gyfer plant 3-7 mlwydd oed. Yn ogystal ag arwain at newidiadau i bolisi addysg, mae hefyd wedi cael effaith uniongyrchol ar ymarferwyr a llunwyr polisi sy'n gweithio ym maes addysg blyneddau cynnar.

Hefyd wedi'u henwebu yn yr un categori oedd Dr Peter Mackie, sy'n gadeirydd ar Rwydwaith Ymchwil Tai WISERD, a Dr Elin Royles, Dr Huw Lewis a Dr Catrin Wyn Edwards, sydd yn rhan o Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru WISERD ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Dyn y Flwyddyn

Enwyd yr Athro Paul Chaney (Prifysgol Caerdydd) yn 'Ddyn y Flwyddyn' Chwarae Teg yng Ngwobrau Womenspire 2017. Cafodd ei gydnabod gan brif elusen cydraddoldeb rhywedd Cymru fel "gwir eiriolwr ar gyfer cydraddoldeb rhywedd drwy ei ysgrifennu a'i ddylanwad ar bolisi, sydd wedi effeithio ar fywydau merched yng Nghymru a thu hwnt."

Myfyriwr PhD WISERD yn ennill gwobr am boster


Enillodd Samuel Brown, myfyriwr PhD a ariennir gan ESRC (Prifysgol Abertawe), Wobr Poster Cynhadledd Flynyddol WISERD 2017, a noddwyd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae Samuel yn nhrydedd flwyddyn ei gwrs PhD sy'n edrych ar effeithiau digwyddiadau bywyd mawr ar fodlonrwydd bywyd oedolion. Teitl ei boster oedd, 'Golwg ar ragweld ac addasu lles yn dilyn newidiadau mewn cytundebau cyflogaeth, gan ystyried cydlyniant cymdeithasol'.

Dulliau ymchwil arloesol


Mae WISERD yn falch o fod ar flaen y gad yn y gwyddorau cymdeithasol. Yn ogystal â dwyn academyddion ynghyd o nifer o ddisgyblaethau gwyddorau cymdeithasol gwahanol, mae ein hymchwilyr yn aml yn datblygu methodolegau newydd ac yn defnyddio dulliau arloesol yn eu gwaith.

Mesur galw am a mynediad at wasanaethau cyhoeddus

Mae Dr Nicholas Page (Prifysgol De Cymru) wedi bod yn defnyddio technegau systemau gwybodaeth daearyddol (GIS) i ymchwilio amrywiadau lleol mewn lefelau mynediad i wasanaethau hanfodol yng Nghymru. Drwy ddefnyddio dulliau datgylch (FCA) arnawf datblygedig, mae ei ymchwil yn edrych ar oblygiadau cyfunol amser/pellter teithio, argaeledd, a'r galw posibl.



Mapio mynediad i lyfrgelloedd cyhoeddus gan ddefnyddio GIS




Mapio etifeddiaeth

Mae Dr Esther Muddiman (Prifysgol Caerdydd) wedi defnyddio cyfres o 'goed teulu' gweledol i archwilio'r cysylltiadau sy'n bodoli rhwng aelodau o'r teulu. Mae'n defnyddio'r mapiau hyn i ddarganfod y mathau o werthoedd ac arferion sy'n cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf. Croesawodd Dr Muddiman ddau fyfyrwr o Raglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedigion Caerdydd (CUROP) yn ystod yr haf hwn i'w helpu i ddatblygu'r dull hwn.

Mapiau rhyngweithiol y cyfryngau cymdeithasol

Mae Dr Wil Chivers (Prifysgol Caerdydd) wedi bod yn defnyddio meddalwedd i gasglu data o'r cyfryngau cymdeithasol a mapio rhyngweithio ar-lein. Mae'r adnoddau hyn, fel NodeXL, COSMOS a Netlytic, yn galluogi casglu data amser gwirioneddol a data hanesyddol o blatfformau fel Twitter a Facebook. Yna mae'n defnyddio'r data i ymchwilio sut mae pobl a grwpiau'n trefnu ac yn cyfathrebu mewn mannau ar-lein.

Map o sgwrs Twitter ar ddiwrnod streic McDonald's ar 4 Medi 2017



Gweithio gyda chymdeithas sifil

Yn ogystal ag astudio'r gymdeithas sifil, mae WISERD wedi gweithio gyda mudiadau ar draws y trydydd sector a'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn helpu iddynt elwa o'n hymchwil.

Rhannu ymchwil Cymdeithas Sifil yn nigwyddiad mwyaf y sector gwirfoddol yng Nghymru

Fe wnaeth WISERD fynychu ac arddangos yn gofod3, digwyddiad blynyddol newydd a drefnwyd gan WCVA ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio yn y trydydd sector. Mewn gweithdy a gynhaliwyd gan staff WISERD, fe wnaeth ymchwilwyr o'r ganolfan Cymdeithas Sifil, a ariennir gan ESRC, rannu eu gwaith diweddaraf. Roedd sgwrsiau'n cynnwys canfyddiadau o ymchwil am berthyn a chysylltu gwirfoddol mewn dwy gymuned unigryw ac amrywiol yng nghanolbarth Cymru, ymglymiad pobl hŷn mewn gwirfoddoli, a phwysigrwydd addysg uwch ar gyfer ymgysylltiad dinesig unigolion.



Dr David Dallimore yn cyflwyno yn gofod3



Gwella gofal cancer yn y gymuned

Mae ymchwilwyr WISERD ym Mhrifysgol De Cymru yn goruchwyllo myfyriwr PhD a ariennir gan Ysgoloriaeth Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) gyda Tenovus Cancer Care. Mae'r myfyriwr yn datblygu datrysiadau ffynhonnell agored ar gyfer mesur hygyrchedd daearyddol gwasanaethau sgrinio a chefnogi cancer. Mae teclynau a ddatblygwyd eisoes yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ddangos sut y gellir defnyddio technegau dadansoddi gofodol i wneud y mwyaf o leoliadau unedau cancer symudol sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau fel Tenovus.

Cefnogi sefydliadau'r trydydd sector i ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Trefnodd WISERD digwyddiad hyfforddi llwyddiannus i gefnogi mwy o academyddion ac ymchwilwyr o'r trydydd sector i ymgysylltu â llunio polisiau yng Nghymru. Daeth arbenigwyr ynghyd o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaeth esbonio sut, pryd a phwy i ymgysylltu â nhw yng nghyd-destun Cymru datganoledig. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Clerc Pwyllgor, aelod o Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad ac aelod o Dîm Ymgysylltu'r Cynulliad. Fe wnaeth yr Athro Roger Awan-Scully o Ganolfan Llywodraethu Cymru rannu ei brofiad o roi tystiolaeth yn y Cynulliad.



Archwilio cymunedau gyda'r Local Trust

Mae'r elusen Local Trust wedi gofyn i ymchwilwyr WISERD ym Mhrifysgol Bangor i ddod â'u profiad o ymchwil ethnograffig, sy'n seiliedig ar leoliadau i helpu i archwilio patrymau cyfranogiad lleol yn ardaloedd prosiect Big Local. Mae pob ardal Big Local wedi derbyn £1m o arian gan y Loteri i gefnogi pobl i wneud newidiadau cynaliadwy yn eu cymuned.

Lleoliadau myfyrwyr PhD

Drwy wobwr Cymdeithas Sifil ESRC, mae WISERD wedi ariannu myfyrwyr PhD i ymgymryd â lleoliadau gyda Chyngor Cymru ar gyfer Gweithredu Gwirfoddol (WCVA), tîm polisi Cymunedau a Thrydydd Sector Llywodraeth Cymru, Merched mewn Chwaraeon a'r prosiect 'Ail-egniö Cymru' yn y Sefydliad Materion Cymreig (IWA).

Dylanwadu ar ganlyniadau polisi

Mae academyddion WISERD wedi'u hadnabod yn arbenigwyr yn eu meysydd priodol, a gofynnir iddynt i helpu datblygu a gwerthuso polisi cyhoeddus. Yn 2017, crëwyd newid gan ein hymchwil ar draws y sector gyhoeddus.

Dadansoddiad WISERD yn helpu i bennu a all Lywodraeth Cymru gyflawni ei ymrwymiad gofal plant

Defnyddiwyd offer mapio pwrpasol WISERD i asesu a all darpariaeth bresennol gofal plant ymdopi â chynlluniau Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant rhad ac am ddim i rieni plant tair a phedair blwydd oed sydd yn gweithio.

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil a'r dadansoddiad gan Gyd-gyfarwyddwr WISERD yr Athro Gary Higgs a Dr Mitch Langford o Brifysgol De Cymru, ynghyd â Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Drwy fapio a modelu'r galw am ofal plant a'r ddarpariaeth bresennol fe wnaeth y gwaith nodi diffyg cyfatebiaeth rhwng cyflenwad a galw.

Casglu tystiolaeth i lywio dyfodol Estyn

Mae'r Athro Graham Donaldson wedi comisiynu WISERD i ymgymryd â galwad annibynnol am dystiolaeth gan randdeiliaid. Bydd y dystiolaeth yn cael ei defnyddio i lywio adolygiad yr Athro Donaldson o oblygiadau rhaglen diwygio addysgol Llywodraeth Cymru ar gyfer Estyn, arolygiaeth ysgolion Cymru.

Digwyddiad briffio Cynulliad Cymru ar ddementia

Rhoddodd yr Athro Ian Rees Jones, Cyfarwyddwr WISERD, sesiwn briffio ar yr astudiaeth dementia IDEAL i Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ymchwil yn archwilio ffactorau sy'n dylanwadu ar y posibilrwydd o fyw'n well gyda dementia. Nod y prosiect, a ddechreuodd yn 2014, yw ceisio darganfod newidiadau a allai arwain at wella lles ac ansawdd bywyd ar gyfer unigolion sy'n byw gyda dementia, a'r rhai hynny sy'n gofalu amdanynt.

Datblygu polisi gwledig

Mae gwaith gan ymchwilwyr WISERD ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi bwydo mewn i ddadleuon ar bolisi gwledig y dyfodol. Cyflwynodd y Cyd-gyfarwyddwr, yr Athro Michael Woods, i Lywodraeth Cymru ar faterion yn wynebu Cymru wledig ar ôl Brexit, ac ymgynghorodd ef y Fforwm Datblygu Gwledig a ffurfiwyd gan Eluned Morgan AC er mwyn cynnig syniadau newydd ar gyfer polisi gwledig. Mae'r Athro Woods hefyd yn cyfrannu at Gomisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (RSA).

Gwerthuso cynllun Llysgenhadon Gwych y Comisiynydd Plant

Cynhaliodd Dr Rhian Barrance o Brifysgol Caerdydd y gwerthusiad o'r cynllun hwn, oedd yn cynnwys 260 o ysgolion cynradd yng Nghymru yn 2016/17. Nod y cynllun yw codi ymwybyddiaeth o hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (UNCRC) ymhlith plant a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am rôl Comisiynydd Plant Cymru.



WISERD yn treialu cymrodoriaethau academiaidd gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Defnyddiodd Dr Alexandra Plows o Brifysgol Bangor ei chymrodoriaeth i weithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad ar astudiaeth cwmpasu i roi sylw i'r economi yng Ngogledd Cymru. Ariannwyd cynllun peilot y gymrodoriaeth academiaidd gan Brifysgol Bangor a Chyfrif Cyflymu Effaith ESRC.

Datblygu arweinwyr ymchwil

Ers ein sefydlu, mae nifer fawr o ymchwilwyr sy'n gweithio yn WISERD wedi mynd ymlaen i wneud cyfraniadau ardderchog i ymchwil ac addysgu ar y lefel uchaf, ac rydym yn falch bod cynifer wedi datblygu i fod yn arweinwyr ymchwil annibynnol.

Mae ein myfyrwyr PhD ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfaedd yn elwa ar gyfleoedd academiaidd a hyfforddiant unigryw, gan eu helpu i lunio a chyfrannu at ein gwaith ymchwil. Mae llawer o'n hymchwilwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaedd wedi bod yn llwyddiannus wrth ymgeisio am gyllid ymchwil cystadleuol eu hunain ac maen nhw'n chwarae rhan bwysig yng nghyflwyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil eu prifysgolion.


Mae ymchwilwyr WISERD wedi cael eu dyrchafu i swyddi uwch yn eu sefydliadau eu hunain, neu wedi cymryd cyfleoedd mewn prifysgolion ledled y DU ac yn fyd-eang. Mae ein cyfraniad i feithrin a hyrwyddo arweinyddiaeth academiaidd yn cael ei adlewyrchu yn y swyddi mae staff WISERD wedi symud ymlaen iddynt fel arbenigwyr eu hunain; gan gynnwys at ddatblygu polisi, rheoli ymchwil, mentora ymchwil ar ddechrau eu gyrfaedd eu hunain a dylanwadu ar ddadlau yn eu priod feysydd.



Arddangos talent PhD yn Abertawe

Amcan pwysig i WISERD yw hybu adeiladu capasiti yn y gwyddorau cymdeithasol. Ym Mhrifysgol Abertawe, mae WISERD wedi darparu ysgoloriaethau PhD a chefnogi myfyrwyr PhD. Ar hyn o bryd mae chwe myfyriwr PhD yn gysylltiedig ag WISERD; fe wnaeth dau o'r rhain gyflwyno eu traethodau hir ym mis Medi 2017 ac mae gan y ddau bellach swyddi yn y sector prifysgolion.

Dechreuodd carfan ddiweddaraf o fyfyrwyr PhD Abertawe yn 2017. Un ohonynt yw Samuel Mann, sydd yn ymchwilio i gyfeiriadedd rhywiol a lles goddrychol. Mae e wedi cyflwyno papur yng nghynhadledd CLOSER 2017 (Hyrwyddo Rhagoriaeth mewn Ymchwil Hydredol) yn y Llyfrgell Brydeinig. Fe wnaeth Georgios Melios, un arall o'r garfan sy'n ymchwilio sut mae sefydliadau'n effeithio ar les cymdeithasol ac unigol, gyflwyno yng 21ain Cynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Economeg Sefydliadol ym Mhrifysgol Columbia, Efrog Newydd.



Astudiaethau achos

Mae llawer o'n myfyrwyr a'n hymchwilydd wedi defnyddio'r cyfleoedd sydd gan WISERD i'w cynnig er mwyn cael effaith ar gyfer eu hymchwil. Yma, mae dau ohonynt yn esbonio eu cyflawniadau yn eu geiriau eu hunain.

Dr Sioned Pearce

Cydymaith Ymchwil,
Prifysgol Caerdydd



Sioned yn cyflwyno yn nigwyddiad 'Pobl Ifanc a Gwleidyddiaeth' WISERD yn Adeilad Pierhead y Cynulliad Cenedlaethol

“

Rwyf yn ddigon ffodus i astudio polisi cymdeithasol Cymru ac effaith Brexit ar ymgysylltiad gwleidyddol ymhlith ieuenctid fel rhan o Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD. Ar gyfer ymchwilydd ar ddechrau ei gyrfa fel fi, mae diwylliant rhyngddisgyblaethol WISERD a'i chysylltiadau cryf gyda'r sectorau polisi, gwirfoddol a phreifat yn amhrisiadwy o ran helpu datblygiad fy ngwaith.

Mae'r gweithgareddau rwyf wedi bod yn rhan ohonynt yn WISERD wedi gwneud i mi deimlo y gall yr ymchwil rydyn ni'n ei gynhyrchu wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Rwyf wedi cael y cyfle, yr arweiniad a'r cymorth ymarferol i rannu fy nghanfyddiadau gydag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd polisi, cyhoeddus, cyfryngau ac academiaidd, yn ogystal â chyhoeddi mewn cyfnodolion academiaidd. Yn benodol, rwyf wedi trafod cyfnod pontio Cymunedau'n Gyntaf gyda swyddogion Llywodraeth Cymru; wedi cyflwyno fel rhan o dîm ar effeithiau cenedliadol Brexit yng Ngŵyl y Gelli i dros 250 o bobl; ac wedi cael fy nghyfweld gan gyfryngau cymdeithasol cenedlaethol ar ymgysylltiad gwleidyddol ymhlith ieuenctid. Rwyf wedi gallu cyflwyno fy ngwaith mewn dwy gynhadledd, yn ogystal â chyd-drefnu ein digwyddiad ein hunain yn Llundain oedd yn binacl i'n hymchwil methodolegol arloesol gydag amrywiaeth o arbenigwyr, pobl ifanc a llunwyr polisi'n ymgynnull i drafod effaith refferendwm yr UE ar ymgysylltiad gwleidyddol ymhlith ieuenctid. Mae'r rhain i gyd wedi bod yn brofiadau gwych a gwerthfawr, wedi'i gwneud yn fwy gwych a gwerthfawr gan y bobl rwy'n gweithio gyda nhw.

”

“

Rwyf yn Ymgeisydd PhD 3ydd blwyddyn yn astudio'r broses o roi Lwfansau Carbon Personol (PCA) ar waith, ac yn ddigon ffodus i dderbyn grant gan WISERD o Flwyddyn 2. Fy nghefndir yw Cyfarwyddwr Cyllid Busnesau Bach a Chanolig, a dyma fy nhro cyntaf o ddifrif yn y byd academiaidd.

O ran cyflawni effaith, mae bod yn aelod o WISERD wedi bod yn hollbwysig i fy ymchwil. Fe wnaeth cyflwyniad yng Nghynhadledd Flynyddol y llynedd arwain at sgwrs gyda Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Yn ei dro, fe wnaeth hyn fy helpu i drefnu cyfarfodydd gyda nifer o Aelodau Seneddol o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ac ym mis Hydref 2017, dan arweiniad Simon Thomas AS, fe wnaethant gynnig trawsbleidiol yn y Senedd yn gofyn i Lywodraeth Cymru werthuso cynllun peilot o PCA mewn rhan o Gymru. Byddai cynllun peilot o'r fath yn rhwymo'r holl adwerthwyr tanwydd yn y rhanbarth hwnnw ac felly'n fenter arwyddocaol iawn. Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol, er nad yw'r cynnig yn rhwymo'r Llywodraeth am ei fod yn gynnig gwrthbleidiol. Rydym yn gobeithio gweld hyn yn symud ymlaen yn 2018!

Yn ddi-os byddai'r potensial i newid polisi llywodraeth wedi bod yn anoddach heb aelodaeth WISERD a'r mynediad at syniadau, cyfleusterau a hyfforddi mae'n eu darparu. Rwyf yn ddiolchgar iawn ac yn edrych tuag at 2018 i barhau i symud PCA ymlaen.

”

Martin Burgess

Ymgeisydd PhD,
Prifysgol Aberystwyth



Martin yn trafod ei waith gyda Simon Thomas AS yn adeilad y Senedd

Rhwydweithiau ymchwil

Mae pob un o rwydweithiau ymchwil WISERD yn dwyn arbenigwyr ynghyd mewn maes penodol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth. Maent yn cynnwys cydweithwyr o'r byd academiaidd a'r trydydd sector, darparwyr gwasanaeth, llunwyr polisi ac eraill, ac yn helpu i ehangu effaith ymchwil WISERD.

Rhwydwaith Ymchwil Tai

Dan arweiniad Dr Peter Mackie (Prifysgol Caerdydd), mae'r rhwydwaith hwn yn dwyn ymchwilwyr ynghyd o'r byd academiaidd, llywodraeth, y trydydd sector a'r sector preifat i gyfarfod a thrafod ymchwil parhaus ac ymchwil posibl ym maes tai. Mae'r grŵp aml-ddisgyblaethol yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae'r flwyddyn hon yn nodi newid sylweddol yng ngweithgareddau'r rhwydwaith, yn dilyn cynnig llwyddiannus i fod yn hwb Cymru ar gyfer Canolfan Gydweithredol Tystiolaeth Tai y DU (CaCHE) newydd a ariennir gan ESRC, y JRF a'r AHRC. Cafodd yr hwb ei lansio mewn digwyddiad yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr 2017.

Rhwydwaith Ymchwil Iaith, Diwylliant a Hunaniaeth

Mae'r rhwydwaith hwn, dan arweiniad yr Athro Rhys Jones (Prifysgol Aberystwyth), wedi datblygu yn y flwyddyn ddiwethaf i gynnwys y prosiect Revitalise. Wedi'i ariannu gan Gyngor Ymchwil y Dyniaethau a'r Celfyddydau a gweithio gyda Phrifysgol Caeredin, mae'n gofyn p'un a oes angen i ailystyried tybiaethau am y ffordd orau i adfywio ieithoedd lleiafrifol. Cynhaliodd y rhwydwaith weithdy yn yr Eisteddfod Genedlaethol, seminar arbenigol ar fil iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, a chynhadledd ar oblygiadau Brexit ar bolisi'r iaith Gymraeg.

Rhwydwaith Ymchwil Cyfranogiad Diwylliannol

Dan arweiniad Dr Eva Elliott (Prifysgol Caerdydd), mae'r rhwydwaith newydd hwn yn parhau i ddatblygu fel man i academyddion, ymarferwyr, darparwyr gwasanaethau, a sefydliadau diwylliannol a chelfyddydau i gyfarfod a thrafod syniadau ymchwil posibl. Mae nifer o brosiectau hadau corn wedi'u hariannu sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau. Cynhaliodd y rhwydwaith ddigwyddiad yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter, Caerdydd fel rhan o ŵyl Gwyddorau Cymdeithasol yr ESRC, ar destun (tan-)gynrychiolaeth y dosbarth gweithiol yn y celfyddydau a defnyddio perfformiad i ysgogi trafodaeth ar y mater hwn.



Yn nigwyddiad Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol ESRC
'Dosbarth: Yr eliffant yn yr ystafell' Llun: Jon Pountney

Yn y cyfryngau

Roedd academyddion WISERD i'w gweld yn rheolaidd drwy gydol 2017 mewn cyfryngau lleol, yng nghyfringau Cymru ac yng nghyfringau'r DU cyfan. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Ymddangosodd yr Athro Chris Taylor (Prifysgol Caerdydd) ar raglen BBC Breakfast ym mis Chwefror i drafod rhoi addysg yn seiliedig ar chwarae ar waith, a'i effaith
- Fe wnaeth yr Athro David Blackaby o Brifysgol Abertawe ymddangos yn y *Western Mail*, ac ar ITV Wales a BBC Radio Wales yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Gorffennaf na fyddai Prif Linell y Great Western yn cael ei thrydaneiddio cyn belled ag Abertawe
- Ym mis Rhagfyr, fe wnaeth Dr Scott Orford o Brifysgol Caerdydd gyfrannu at gyfres dair rhan ar y rhaglen *You & Yours* ar gyfer BBC Radio 4 oedd yn archwilio cyfradd siopau gwag ar strydoedd mawr Cymru
- Gwelwyd nifer o academyddion o Brifysgol Aberystwyth yn ymddangos ar BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, *Y Cymro* a chyfryngau lleol eraill yn dilyn dadl Brexit a gynhaliwyd gan Ganolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru WISERD

Cyhoeddiadau

Mae allyriadau academiaidd gan ymchwilwyr WISERD yn cynnwys ystod eang o erthyglau mewn cyfnodolion, penawdau llyfrau, adroddiadau a deunyddiau ar-lein. Er mwyn gweld rhestr llawn, ewch i www.wiserd.ac.uk/cyhoeddiadau

Blogiau

Mae ymchwilwyr WISERD yn ysgrifennu blogiau yn aml i helpu eu syniadau a'u gwybodaeth gyrraedd cynulleidfia ehangach. Cyhoeddwyd 43 o flogiau ar-lein yn 2017; dyma rai o flogiau mwyaf poblogaidd y flwyddyn:

Pobl ifanc a Brexit: beth mae Mileniaid eisiau o Brexit?

Un o nifer a ysgrifennwyd fel rhan o brosiect 'Pobl ifanc a Brexit' a ariennir gan yr ESRC, y blog hwn gan Dr Stuart Fox gafodd ei ddarllen fwyaf yn 2017.

Astudiaeth IDEAL: dod o hyd i strategaethau i fyw'n well gyda dementia

Nod y blog hwn gan Dr Alexandra Hillman yw deall y rhesymau pam fod ffactorau penodol yn llywio profiad pobl o fyw gyda dementia.

Cofio yn Aberystwyth: Coffau, y gymdeithas sifil a phwysigrwydd lle

Astudiodd Dr Sophie Yarker ffordd unigryw Aberystwyth o nodi Sul y Cofio, sy'n gweld cyn-filwyr yn ymuno ag ymgyrchwyr heddwch i rannu'r seremoni coffau

Faint o broblem yw seiberfwlio yng Nghymru?

Fe wnaeth Dr Constantino Dumangane Jr. archwilio canfyddiadau o astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD i ddangos fod seiberfwlio dal yn amlwg mewn ysgolion yng Nghymru, er nad yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ei brofi.

Gellir gweld pob un o flogiau WISERD ar-lein: www.wiserd.ac.uk/blogiau

Blwyddyn o ddigwyddiadau

Yn 2017, trefnodd WISERD 74 o ddigwyddiadau ledled Cymru a'r DU, yn ogystal â mynychu nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan eraill. Rhoddodd y digwyddiadau hyn gyfleoedd i'n hacademyddion i gyfathrebu eu hymchwil i gynulleidfaoedd newydd a datblygu syniadau.

Cynhadledd Flynyddol WISERD 2017

Cynhaliodd Prifysgol Bangor gynhadledd gwyddorau cymdeithasol fwyaf Cymru eleni, gyd chydweithwyr WISERD yn ymuno ag academyddion o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau ac eraill gyda diddordeb yn y gwyddorau cymdeithasol i drafod y thema "Degawd o Aflonyddwch".



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Sophie Howe yn annerch y gynhadledd

Cyflwynodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe, anerchiad ar p'un a allai ei rôl a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol alluogi amhariad o fewn polisi cyhoeddus. Rhoddodd Hilary Wainwright, golygydd sefydlol cylchgrawn Red Pepper, sgwrs gyhoeddus yng Nghanolfan Gelfyddydau Pontio ar gynhwysiant, amlygrwydd a dyfodol gwleidyddiaeth newydd o'r chwith.

Rhoddwyd cyfle i fyfyrwyr PhD gyflwyno eu gwaith, drwy gystadleuaeth poster dan nawdd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a chyflwyniadau tri munud o hyd fel rhan o sesiwn ymgysylltu ac effaith 3MEI Partneriaeth Hyfforddiant Ddoethurol Cymru ESRC.



Yr Athro David Shepherd, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil)
Prifysgol Bangor, yn siarad yn y gynhadledd

Y Ganolfan ar gyfer Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru

Lansiwyd Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru (CWPS), a leolwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth, ym mis Ionawr 2017 gydag ymgysylltiad cyhoeddus yn rhan allweddol o'i chenhadaeth. Mae'r Ganolfan wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, yn Aberystwyth ac ymhellach i ffwrdd.

Ar gyfer eu Darlith Dydd Gŵyl Dewi, croesawodd y Ganolfan y Farwnes Eluned Morgan AS (sydd bellach yn weinidog Llywodraeth Cymru) fel ei phrif siaradwr. Defnyddiodd ei phrofiad helaeth o 15 mlynedd fel ASE i siarad am Brexit a gofyn p'un all unrhyw beth cadarnhaol ddod o'r bleidlais i adael ym mis Mehefin 2016.

Ym mis Rhagfyr, daeth blwyddyn lansio CWPS i ben gyda derbyniad yn Adeilad Pierhead y Cynulliad Cenedlaethol. Cynhaliwyd y digwyddiad gan Elin Jones AS, Llywydd y Cynulliad, ac roedd unigolion o gymdeithas sifil Cymru yn bresennol gan gynnwys o'r llywodraeth, y trydydd sector a'r cyfryngau.



Y Farwnes Eluned Morgan yn cyflwyno darlith Dydd Gŵyl Dewi ym Mhrifysgol Aberystwyth



Y Llywydd Elin Jones AS yn nigwyddiad CWPS yn y Cynulliad

'Gwyliwch y Bwlch' yng Ngŵyl y Gelli

Fe wnaeth pedwar o ymchwilyr WISERD o Brifysgol Caerdydd drafod y rhaniadau rhwng cenedlaethau a ddatgelwyd yn dilyn Refferendwm UE 2016 yn y 30ain Gŵyl Llenyddiaeth a Chelfyddydau'r Gelli.


Pleidleisiodd y mwyafrif o bobl 18 i 24 mlwydd oed i aros yn yr UE, tra pleidleisiodd y mwyafrif o bobl dros 65 mlwydd oed i adael. Trafododd ein hymchwilyr sut a pham y gwelwyd y rhaniad hwn. Roedd eu sgwrs gyhoeddus yn archwilio gwahaniaethau yn y defnydd o ffynonellau gwybodaeth o'r cyfryngau, rôl perthnasodd teuluol wrth lywio agweddau cymdeithasol, a rôl addysg ac ysgolion wrth ddatblygu ymwybyddiaeth wleidyddol.



(Ch-Dd) Dr Stuart Fox, Dr Sioned Pearce, Dr Dan Evans a Dr Esther Muddiman. Llun: James Cook

Cysylltiadau rhyngwladol

Mae WISERD yn falch o fod wedi meithrin cysylltiadau ym mhob cornel o'r byd drwy ymchwil ar y cyd, croesawu academyddion sy'n ymweld, mynychu cynadleddau dramor a chynnal gwaith maes mewn gwledydd eraill.



Cyfarfod aelodau rhyngwladol ein Bwrdd Ymgynghori

Mae'r **Athro Carlo Borzaga** o Brifysgol Trento yn astudio polisi cymdeithasol, ac ar hyn o bryd mae'n gadeirydd ar Euricse - Sefydliad Ymchwil Ewropeaidd ar Fentrau Cydweithredol a Chymdeithasol.


Mae'r **Athro Jamie Peck**, Cadeirydd Ymchwil Canada mewn Economi Gwleidyddol Rhanbarthol a Threfol ym Mhrifysgol British Columbia, yn economegydd gwleidyddol sy'n gweithio ar faterion yn ymwneud â daearyddiaeth economaidd, ailstrwythuro trefol a rheoli llafur.

Mae'r **Athro Merrill Silverstein**, Athro Gwaddoledig Marjorie Cantor mewn Heneiddio ym Mhrifysgol Syracuse, UDA, yn arbenigo yn y teulu, poblogaeth sy'n heneiddio a chysylltiadau rhwng cenedlaethau.

Ffe wnaeth yr Athro Grigori Kliuchare o Sefydliad Cymdeithaseg, Academi Gwyddorau Rwsia, gyflwyno seminar yn swyddfa Caerdydd WISERD ar rôl rhaglenni llythrennedd a diwygiadau addysgol mewn democratiaeth adeiladu yn Rwsia.

Proffil incwm

Mae gan WISERD hanes rhagorol o ennill cyllid ymchwil cystadleuol. Mae ein hystod eang o noddwyr, o gynghorau ymchwil a phrifysgolion i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, yn helpu i ddatblygu ein gwaith ymchwil ar draws y gwyddorau cymdeithasol.



Cyllid newydd yn 2017

Yn 2017, fe wnaethom sicrhau cyllid newydd gan amrywiaeth eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Bydd nifer o'r prosiectau hyn yn creu newid yn rheolaidd drwy ddylanwadu ar ddatblygiad polisi ac arfer ar draws amrywiaeth o sectorau.

